## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A470 (MAN I'R GOGLEDD O RAEADR GWY, POWYS) (GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2024

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A470, neu gerllaw iddi, mewn man i'r gogledd o Raeadr Gwy, Powys.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A470 sy'n ymestyn o bwynt 300 metr i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â mynedfa i gerbydau yr eiddo a elwir Cefn Bychan, a leolir oddeutu 2 gilometr i'r gogledd o Raeadr Gwy hyd at bwynt 375 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd sirol sy'n arwain at Saint Harmon ym Mhont Marteg, a leolir oddeutu 4 cilometr i'r gogledd o Raeadr Gwy.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gogledd yw mynd ar yr A470 tua'r de i Raeadr Gwy, yr A44 tua'r dwyrain i'r Groes, yr A483 tua'r gogledd i'r Drenewydd a'r A489 tua'r gorllewin i ailymuno â'r A470 yng Nghaersŵs: i'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r de.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 15 Mawrth 2024. Disgwylir y bydd y gwaharddiad dros dro yn weithredol dros nos (19:00 – 06:00 o'r gloch) rhwng 15 a 23 Mawrth 2024 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ail-amserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

## THE A470 TRUNK ROAD (NORTH OF RHAYADER, POWYS) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2024

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is required to undertake works on or near the A470 trunk road north of Rhayader, Powys.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services or for the works, from proceeding on the length of the A470 trunk road that extends from a point 300 metres north-west of the centre-point of its junction with the vehicular access of the property known as Cefn Bychan, located approximately 2 kilometres north of Rhayader to a point 375 metres north of the centre-point of its junction with the county road leading to St. Harmon at Pont Marteg, located approximately 4 kilometres north of Rhayader.

The alternative route for northbound vehicles is via the southbound A470 to Rhayader, eastbound A44 to Crossgates, northbound A483 to Newtown and westbound A489 to rejoin the A470 at Caersws: vice versa for southbound vehicles.

The Order comes into force on 15 March 2024. The temporary prohibition is expected to operate overnight (19:00 – 06:00 hours) from 15 – 23 March 2024 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the period specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work begins.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government